

CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



Cyfarfod Is-Bwyllgor Cystadlaethau
Dydd Mawrth 25ain Mai 2021
ZOOM 7yh

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Court

IS-GADEIRYDD: Miss Sian Healey

YN BRESENNOL: Katie Court (Cadeirydd y Pwyllgor), Kate Thomas (Morgannwg), Katie Matthews (Gwent), Emma Rees (Brycheiniog), Gwen Thomas (Eryri), Will Hughes (Ynys Môn), Elen Williams (Morgannwg) Elin Calan-Jones (Ceredigion), Katie Davies (Cadeirydd CFFI Cymru), Esyllt Jones (Ceredigion) Sion Evans (Sir Gâr), Delun Evans (Sir Benfro), Aled Thomas (Sir Gâr), Sam Kurtz (Sir Benfro), Anna Jones (Meirionnydd) Gwenno Davies (Clwyd), Millie Edwards (Maldwyn), Sian Healey (Is-Gadeirydd y Pwyllgor), Jamie (Maldwyn), Emma Rees (Brycheiniog).

HEFYD YN BRESENNOL: Rhodri Lewis & Mared Jones – CFFI Cymru

C/65/1921 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd Katie Court bawb i'r wythfed gyfarfod o is-bwyllgor Cystadlaethau ym mlwyddyn CFFI 2020/2021.

Nodwyd fod gan bob sir ddau bleidlais, fe all fwy o aelodau o'r siroedd fynychu ond dim ond dau aelod sy'n gallu pleisleisio.

Eglurodd Katie fod y cyfarfod heno i geisio cael adborth o gystadlaethau blaenorol fel yr Eisteddfod Rhithiol a'r Siarad Cyhoeddus Rhithiol ac i gael trafodaeth ynglyn a chystadlaethau yn y dyfodol yn cynnwys y Sioe Frenhinol Rhithiol, Cystadleuaeth Coginio Cywain a Chystadleuaeth yr Wyl Benwythnos.

C/66/1921 YMDDIHEURIADAU AN ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddiwrth: Edna Jones (Trefnydd Sir Ynys Môn), Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn), Manon Williams (Meirionnydd), Elizabeth Swancott (Maesyfed), Caryl Haf (Is-Gadeirydd CFFI Cymru), Tania Hancock (Sir Benfro), Sioned Caryl (Ceredigion).

C/67/2021 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Fe gafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu rhannu ar y sgrin, eu darllen a'u cadarnhau fel record gwir a chywir.

Cynigydd: Kate Thomas (Morgannwg)

Eilydd: Katie Matthews (Gwent)

C/68/2021 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

'Roedd y Pwyllgor Cystadlaethau wedi trafod cystadleuaeth Tynny'r Gelyn yn ystod y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor ym mis Mawrth ac wedi cytuno i gysylltu a Chymdeithas Tynnu'r Gelyn Gymreig am eglurhad a chanllawiau. Nodwyd fod CFFI Cymru wedi derbyn canllawiau ers 26ain Ebrill ond ddim y rhai diweddaraf dyddiedig 17eg Mai 2021. Fe fydd CFFI Cymru yn danfon y canllawiau diweddaraf allan i'r Siroedd cyn gynted a fyddant yn cael eu derbyn.

Nododd Gymdeithas Gymreig Tynnu'r Gelyn eu bod yn bwriadu cynnal cystadleuaeth yn y dyfodol agos. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n raid i CFFI Cymru gynllunio cystadleuaeth Cymru-gyfan, ac unwaith i ni dderbyn y canllawiau diweddaraf, fe gaiff drafodaeth ei gynnal yng nghyfarfod nesaf o bwyllgor Cystadlaethau.

C/69/2021 CORRESPONDENCE

Cafodd dim ei dderbyn.

C/70/2021 ADBORTH AR GYSTADLAETHAU BLAENOROL

a) Eisteddfod Rhithiol

Gofynnwyd i'r Siroedd i gyd os oeddynt wedi derbyn adborth ynglyn a'r Eisteddfod. Ar ol trafodaeth, cytunwyd fod y Siroedd i gyd yn hapus gyda sut y cafodd yr Eisteddfod Rhithiol ei rhedeg.

b) Siarad Cyhoeddus Rhithiol

Gofynnwyd i'r Siroedd i gyd os oeddynt wedi derbyn adborth ynglyn a'r Siarad Cyhoeddus Rhithiol. Nododd y Siroedd eu bod yn falch gyda mor gystal y rhedwyd y cystadlaethau dros y ddau ddiwrnod o gystadlu ac 'roeddynt yn hapus gyda phob agwedd arall.

Nodwyd, fel adborth gyffredinol, y dylai Pwyllgor Cystadlaethau CFFI Cymru sicrhau fod yna hefyd ddigon o gystadlaethau ar gael i'r aelodau iau. Diolchwyd i staff CFFI Cymru a'r Swyddogion i gyd am eu holl waith.

C/71/2021 I DRAFOD CYSTADLAETHAU'R DYFODOL

a) Sioe Frenhinol Rhithiol 2021

Nododd Katie Court y byddai canlyniadau yn cael eu cynnal yn yr wythnos 19eg o Orffennaf 2021. Cytunwyd hefyd yn ystod y Cyfarfod Cystadlaethau diwethaf y byddai cystadlaethau barnu Stoc yn digwydd ar ddydd Sul 27ain Mehefin 2021 a Gêm Cenhedlaeth y Cadeirydd yn cael ei chynnal ar 10fed o Orffennaf 2021.

Nodwyd hefyd fod swyddfeydd Sirol wedi derbyn lluniau a nodweddion y stoc i'w rownd Sirol. Gofynnwyd y cwestiwn a fyddai yr un lluniau yn cael eu defnyddio i farnu stoc gyda CFFI Cymru ac fe esbonwyd y byddai lluniau gwahanol yn cael eu defnyddio i gystadleuaeth barnu stoc lefel CFFI Cymru.

b) Cystadleuaeth Cywain

Nododd Katie Court y byddai Cystadleuaeth Cywain yn cael ei lansio yn yr wythnosau nesaf gyda'r dyddiad cau ar ôl wythnos y Sioe Frenhinol. Fe fydd y gystadleuaeth i greu pryd o fwyd dau gwrs gyda diod yn defnyddio cynnyrch a welir ar fap Cywain, a gaiff ei gylchredeg gyda dogfennau'r gystadleuaeth. Fe fydd yna hefyd wobwr hael iawn i'r 3 cyntaf gyda gwobr 1af o £600, £250 i'r 2il a £150 i'r 3ydd.

c) Gwyl Penwythnos 2021

Yng nghyfarfod diwethaf o'r pwyllgor Cystadlaethau fe gafwyd trafodaeth ynglyn a phosibilrwydd o drefnu gwyl benwythnos wyneb yn wyneb ar Awst 14eg a 15fed.

Nodwyd y byddai cystadlaethau FfCCFFI yn cynnwys:
Adeiladu Ffens, Sgiliau Diogelwch Fferm, Rhaff Neidio, Tynnu'r Gelyn,
Criced 'Kwik', Pelrwyd Merched, Peldroed Bechgyn.

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r cystadlaethau hyn ac fe gytunwyd i gynnal cystadlaethau wyneb yn wyneb i'r holl gystadlaethau sydd angen dilead i fynd ymlaen at lefel FfCCFFI. Awgrymwyd y dyddiadau isod i gynnal y cystadlaethau:

14eg a 15fed Awst – cystadlaethau yn seiliedig ar amaeth. Lleoliadau – Maes y Sioe, Llanelwedd / Marchnad Aberhonddu.

11eg a 12fed Medi – Cystadlaethau Chwaraeon. Lleoliadau – Aberystwyth, Y Drenewydd, Aberhonddu.

Fe fydd CFFI Cymru yn cysylltu gyda FfCCFFI i gadarnhau pa Gystadlaethau fydd dilead i fynd ymlaen i lefel FfCCFFI, ac fe gaiff y lleoliadau eu cysylltu. Fe fydd trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf o Bwyllgor Cystadlaethau.

C/72/2021 EITEMAU AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- a) **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – dydd Mawrth 22ain Mehefin 2021.
- b) **Eitemau Agenda i'r cyfarfod nesaf i gynnwys:**
 - Gwyl Cystadlu Penwythnos
 - Sioe Frenhinol Rhithiol

C/73/2021 UNRHYW FUSNES ARALL

- a) Fe gafodd ei awgrymu y dylai Bwyllgor Cystadlaethau drafod dyddiadau dros y flwyddyn galendar 2021-22 a cynllunio'r flwyddyn yna fel blwyddyn arferol i CFFI. Trafodwyd ac awgrymwyd dyddiadau fel a ganlyn:

Eisteddfod – fe fyddai Brycheiniog yn cael eu gofyn os fyddant yn hoffi gwesteio. Gofynnwyd cwestiynau ynglyn a chytundeb i apwyntio llefydd cyfarfod yn y Gogledd, Canolbarth a'r De. Fe gaiff hyn ei ymchwilio a'i drafod yng nghyfarfod nesaf o Bwyllgor Cystadlaethau. Cafodd y dyddiad 11eg Rhagfyr ei drafod fel dyddiad os byddai Brycheiniog yn gwesteio a'r lleoliad ar Faes y Sioe Frenhinol.

Y Ffair Aeaf – 29ain – 30ain Tachwedd (wedi ei gadarnhau'n barod)
Adloniant – 5ed + 6ed Mawrth (wedi ei gadarnhau'n barod)
Siarad Cyhoeddus – 26ain + 27ain Mawrth
Diwrnod Maes – 23ain Ebrill
Diwrnod Chwaraeon – 18fed + 19eg Mehefin
Sioe Frenhinol–18fed – 21ain Gorffennaf (wedi ei gadarnhau'n barod)

Cytunwyd y byddai CFFI Cymru yn ystyried y dyddiadau uchod a'r lleoliadau – a dod yn ôl i gyfarfod Cystadlaethau Mis Mehefin gyda rhagor o wybodaeth i'w drafod gan y pwyllgor.

- b) 'Roedd Esyllt Jones a Kate Thomas wedi mynychu cyfarfod Cystadlaethau FfCCFI ar ddydd Llun 24ain Mai 2021. Cafwyd trafodaeth ynglyn a category oedran i FfCCFI gael symud ymlaen gan fod oedran aelodaeth wedi ei gytuno fel 28 neu lai. Nododd FfCCFI na fyddent yn gallu symud i gael mwy na tri category fel sydd ganddynt yn awr. (10-16, 17-21, 22-26). Cafwyd trafodaeth ynglyn a hyn ac fe awgrymwyd i'r Siroedd fynd a hyn yn ôl at eu Siroedd i gael adborth ac awgrymiadau.

Mae cyfarfod nesaf FfCCFI ar 28ain Mehefin.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill yn codi, diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau ac fe gauwyd y cyfarfod am 20.01 yh.

Llofnod: **Dyddiad:**